

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

Mr. C.B. Jones

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Y Pafiliynau

Parc Hen Lofa'r Cambrian

Cwm Clydach, CF40 2XX

Ffôn: (01443) 424081 C Hendy

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal yn **Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, brynhawn Iau, 5 Hydref 2017** am 5pm.

ER GWYBODAETH AC FEL RHEOL GYFFREDINOL, BYDD GOFYN I UNRHYW AELODAU O'R CYHOEDD SY'N DYMUNO SIARAD AR UNRHYW EITEM YN YR AGENDA YMA, Y MAE GYDA NHW FUDDIANT YNDDI, GYFLWYNO CAIS FFURFIOL I'R UWCHADRAN MATERION RHEOLI DATBLYGU, TŶ SARDIS, PONTYPRIDD O LEIAF DAU DDIWRNOD GWAITH CYN DYDDIAD Y CYFARFOD. RHAID I UNRHYW UN SY'N DYMUNO CYFRANNU YN Y CYFARFOD DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG GYSYLLTU Â'R GWASANAETHAU LLYWODRAETHOL
AR 01443 424102

ER GWYBODAETH I'R RHEINY A FYDD YN Y CYFARFOD, MAE'N BOSIBL Y CAIFF MATERION EU TRAFOD MEWN TREFN WAHANOL I'R HYN SYDD WEDI'I NODI YN YR AGENDA ER MWYN GALLUOGI UNIGOLION SYDD AM GYFRANNU YN Y CYFARFOD I WNEUD HYNNY. CAIFF TREFN YR AGENDA EI HADDASU ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR ORAU.

AGENDA

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau o'r Pwyllgor yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, pan fyddan nhw'n trafod y materion rheoli datblygu ger eu bron, roi ystyriaeth i'r Cynllun Datblygu a, cyn belled â'u bod yn berthnasol, i geisiadau ac i ystyriaethau eraill ac wrth wneud penderfyniadau, rhaid i Aelodau sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn ffordd nad yw'n anghyson â'r Confensiwn ar Hawliau Dynol a ymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

4. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 7 Medi 2017 yn rhai cywir.

Tudalennau

1 - 10

ADRODDIADAU CYFARWYDDWR GWASANAETH – MATERION CYNLLUNIO

5.

CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO

1. Rhif y Cais: 17/0429 – Garej dwbl a gwaith cysylltiedig (Derbyniwyd y Cynlluniau Diwygiedig 14/08/17, Tir cyfagos i Broadfield Close, Pen-y-graig, Tonypandy. **11 - 18**
2. Rhif y Cais: 17/0493 – Tyrbin gwynt unigol hyd at uchafswm o 126 metr i ben y llafn. Ynghyd â'r seilwaith cysylltiedig gan gynnwys pad craen, llwybr mynediad a chynhwysedd trydanol. (Daeth Datganiad Amgylcheddol gyda'r cais - dyddiad Ebrill 2017) Graig Fartha, Coed-elái, Tonyrefail **18 - 42**

6. ADRODDIAD ER GWYBODAETH

Hysbysu Aelodau o'r canlynol, ar gyfer y cyfnod 11/09/2017 a 22/09/2017. **43 - 50**

Derbyniwyd Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi.

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.

Cymeradwyaeth Penderfyniadau Dirprwyedig a Gwrthodiadau gyda rhesymau.

Trosolwg o Achosion Gorfodi

Penderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig

7. MATERION BRYD

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai bryd yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cylchrediad:

Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu:
(Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol S. Rees a G. Caple)

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol J. Bonetto, A. Davies - Jones, D. Grehan, L. Hooper, G. Hughes, P. Jarman, D. Williams, J. Williams ac S. Powell

28 Medi 2017

